# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2020

Amser: 09.05 - 12.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6448

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Jayne Bryant AS<br>Andrew RT Davies AS<br>Lynne Neagle AS<br>David Rees AS |
| Tystion: | Yr Athro Robert West, Coleg Prifysgol Llundain<br>Yr Athro Susan Michie, Coleg Prifysgol Llundain<br>Yr Athro David Heymann, Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain<br>Yr Athro Devi Sridhar, Prifysgol Caeredin |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Dr Paul Worthington (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Athro Robert West a'r Athro Susan Michie

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Robert West a'r Athro Susan Michie.

2.2 Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch a oes gan y cyhoedd ymdeimlad o ymgysylltu a grymuso i gymryd rhan yn yr ymateb i'r pandemig, cytunodd yr Athro Susan Michie i ddarparu gwybodaeth bellach am ymgynghori â dinasyddion a chyd-gynhyrchu atebion wedi'u teilwra.

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Athro David Heymann a'r Athro Devi Sridhar

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro David Heymann a'r Athro Devi Sridhar.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynglŷn â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.